



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Hawlio treth yn ôl ar eich ffi gofrestru

Gwybodaeth am rhyddhad treth ar
gyfer ffioedd proffesiynol a
thanysgrifiadau.

Cyhoeddwyd gyntaf: 28 July 2026

Diweddariad olaf: 9 October 2026

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o
gofalcymdeithasol.cymru ac efallai
nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.

Ewch i

<https://gofalcymdeithasol.cymru/cofrestru/ffioedd/hawlio-treth-yn-ol-ar-eich-ffi-gofrestru> am y
fersiwn diweddaraf.

Rhyddhad treth ar gyfer ffioedd proffesiynol a thanysgrifiadau

Os ydych chi'n drethdalwr yn y DU, gallwch chi hawlio rhyddhad treth ar eich ffioedd cofrestru.

Mae hyn yn golygu i berson cofrestredig sy'n talu treth ar y gyfradd dreth sylfaenol o 20 y cant, y bydd ffi o £30 yn costio £24 ar ôl rhyddhad treth o £6, i bob pwrpas. Mae trethdalwyr sydd ar y gyfradd dreth uwch hefyd yn gymwys.

- Dim ond drwy CThEF (*HMRC*) y gallwch hawlio rhyddhad treth - ni allwn ni ei brosesu i chi.
- Nid yw trethdalwyr y tu allan i'r DU yn gymwys i gael rhyddhad treth.
- Dim ond am ffioedd rydych chi wedi'u talu eich hun y gallwch hawlio.

Sut i hawlio rhyddhad treth

Mae dau ffordd o hawlio rhyddhad treth ar eich ffioedd cofrestru:

1. Os nad ydych yn cwblhau ffurflen dreth, gallwch hawlio rhyddhad treth gan ddefnyddio ffurflen P87: Rhyddhad treth ar gyfer treuliau cyflogaeth, sydd ar gael ar [wefan GOV.UK](https://www.gov.uk) (Saesneg yn unig)
2. Os byddwch chi'n cwblhau ffurflen dreth hunanasesiad, gallwch hawlio rhyddhad treth o'ch ffioedd cofrestru ar yr adran treuliau cyflogaeth.

Cofiwch fod yn rhaid i chi dalu'r ffi lawn i Ofal Cymdeithasol Cymru a hawlio unrhyw rhyddhad treth ar wahân drwy CThEF.

Mwy o wybodaeth: [GOV.UK](https://www.gov.uk)